# COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHIENI CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MERCHER, 11 GORFFENNAF 2018, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd PJ White – Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| D Patel | CA Webster | HM Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

J Gebbie a/ac CE Smith

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Laura Kinsey | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant |

## 172. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr HJ David, CE Smith ac RE Young

## 173. DATGAN BUDDIANNAU

Dim

## 174. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod Pwyllgor y Cabinet dros faterion Rhieni Corfforaethol a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2018 fel cofnod cywir.

## 175. AROLYGIAD O'R GWASANAETHAU PLANT – CYNLLUN GWEITHREDU

Rhoddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun gweithredu'n gysylltiedig ag Arolygiad o'r gwasanaethau plant a gynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru fis Mehefin 2017. Soniodd hefyd am y cynnydd a wnaed i roi'r argymhellion ar waith ac i fonitro unrhyw gamau nad oeddent wedi'u cwblhau. Hwn oedd yr adroddiad diweddaru y cytunodd i'w gyflwyno bob chwe mis ar ôl trafod yr adroddiad ym mis Ionawr 2018.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles grynodeb o'r casgliadau ac eglurodd fod y tîm Cymorth Cynnar a'r Bwrdd Diogelu yn monitro'r Cynllun Gweithredu. Roedd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymorth i Deuluoedd yn cyd-gadeirio'r Bwrdd. Cynhaliwyd yr Arolygiad hwn flwyddyn yn ôl ac mae cynnydd da wedi'i wneud, ond roedd rhai meysydd yr oedd angen eu gwella.

Nododd un aelod fod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu'n wyrdd, ac roedd rhai yn felyn, a gofynnodd a oedd unrhyw beth na fyddai'n debygol o gael ei gwblhau ymhen amser rhesymol neu unrhyw feysydd lle nad oedd y cynnydd disgwyliedig wedi'i wneud. Eglurodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant y byddai unrhyw feysydd sy'n peri pryder yn cael eu lliwio'n goch. Roedd y rhan fwyaf o'r camau gweithredu melyn yn

ddarnau o waith hirdymor a fyddai'n cymryd amser i'w cyflawni. Dywedodd un aelod ei fod yn falch o weld bod nifer o gamau gweithredu glas wedi'u cwblhau.

Gofynnodd un aelod a oedd cynlluniau ar y gweill i baratoi ar gyfer y newidiadau yn ardal Cwm Taf. Esboniodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles y byddai rhan Pen-y-bont ar Ogwr o'r cynllun ardal yn cael ei throsglwyddo i Gwm Taf. Roedd Cwm Taf wedi sefydlu Bwrdd Pontio ac roedd Bwrdd Iechyd ABMU a staff yn aelodau o'r Bwrdd hwnnw ac yn ystyried ffrydiau gwaith yn ymwneud â phartneriaethau. Roedd yn bwysig parhau i ddarparu gwasanaeth o safon ac roedd y Swyddog Comisiynu eisoes yn creu cysylltiadau â Chwm Taf. Gofynnwyd sut roedd staff yn ymdopi â'r gwaith ychwanegol. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod y timau'n ymdopi ar hyn o bryd ond roedd yn pryderu na fyddent yn gallu parhau i ysgwyddo'r llwyth gwaith ychwanegol yn y tymor hir. Byddai'r llwyth gwaith yn parhau i gynyddu a byddai angen adnoddau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Roedd angen adnoddau ychwanegol ar y Byrddau Iechyd hefyd ac roedd cyfarfod wedi'i drefnu i drafod hyn. Byddai hyn yn waith enfawr i'r Byrddau Iechyd ac roedd yn bwysig bod y trefniadau rhwng y partneriaethau'n parhau a bod grantiau'n cael eu dadgyfuno'n briodol. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar y byddai angen yr adnoddau ychwanegol ar ôl cwblhau'r broses drosglwyddo er mwyn ymwreiddio'r systemau newydd.

Gofynnodd un aelod sut roedd y camau gweithredu'n cael eu gwerthuso. Esboniodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant fod y swyddogion yn diweddaru'r Cynllun Gweithredu ac yn cyflwyno adroddiad i'r Cyfarwyddwyr a'r Bwrdd i'w herio. Cyflwynir adroddiadau cynnydd hefyd i Arolygaeth Gofal Cymru

Cyfeiriodd un aelod at un o argymhellion yr adroddiad yn ymwneud â safon trefniadau goruchwylio staff rheng flaen gan ofyn a oedd y gwasanaeth hwn yn cael ei gynnal ac a fyddai'n bosibl iddo barhau. Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant fod y rheolwyr yn gallu goruchwylio staff rheng flaen ac nad oedd swyddi gwag ar hyn o bryd. Nid oeddent yn pryderu am drosiant staff ac roedd y sefyllfa'n cael ei fonitro'n agos mewn cyfweliadau ymadael. Mae nifer y staff asiantaeth wedi gostwng i ddau, y naill yn llawn amser a'r llall yn rhan amser, a byddai'r rhain yn gadael ddechrau'r hydref pan fyddai staff newydd yn dechrau. Roedd nifer o staff newydd gymhwyso ac roedd angen darparu sesiynau cynefino a chynnig y cymorth priodol iddynt. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi clywed yn ddiweddar eu bod wedi derbyn canmoliaeth a'u bod wedi'u cynnwys ar y rhestr fer yn y rownd derfynol am y cymorth roedd yn ei gynnig i staff yn ystod eu blwyddyn gyntaf.

Gofynnodd un aelod a fu unrhyw newidiadau o ran nifer yr achosion a ddyrannwyd i bob gweithiwr cymdeithasol ar gyfartaledd. Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant mai'r nod oedd dyrannu 18 achos i bob un ac roedd i ffigur hwn yn cael ei fonitro'n agos. Roedd rhai gweithwyr cymdeithasol yn cael rhagor, gan ddibynnu ar gymhlethdod yr achosion.

Gofynnodd un aelod a oedd problemau recriwtio a chadw. Esboniodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles nad oedd dim swyddi gwag tan yn ddiweddar, ond roedd y sefyllfa wedi newid erbyn hyn. Roedd prosesau newydd ar gyfer sicrhau ansawdd a goruchwylio ac, o ganlyniad, roedd y sefyllfa wedi gwella. Gofynnodd yr aelodau a oedd unrhyw themâu a oedd yn codi'n gyson mewn cyfweliadau ymadael. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant nad oedd unrhyw themâu'n codi'n gyson ac ymddengys bod staff yn gadael am nifer o resymau gwahanol gan gynnwys dyrchafiad a'r cyfle i weithio'n agosach at adref.

Cyfeiriodd un aelod at yr Ŵyl Ddysgu a gynhaliwyd yn ddiweddar i rannu profiadau a gwybodaeth, a hynny er budd y rhai a oedd yn addysgu a'r myfyrwyr, a holwyd a oedd cynlluniau tebyg gan y Gwasanaethau Plant. Esboniodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles eu bod yn bwriadu gweithio gyda'r uned hyfforddi ac, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, eu bod wedi cyfarfod â'r 21 aelod newydd o staff ar ddechrau'r flwyddyn ac y byddent yn eu gweld eto ar ddiwedd y flwyddyn i'w holi a oeddent yn ymgyfarwyddo â'r gwaith ac i hyrwyddo'r gwaith da a oedd yn mynd rhagddo ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Gofynnodd un aelod a fyddai'r Cyngor yn rhoi mwy o lais i blant a theuluoedd wrth ddatblygu cynlluniau gwasanaeth. Esboniodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau Rheoleiddio Plant fod plant yn allweddol i'r gwaith o bennu trywydd gwasanaethau. Byddai Plant sy'n Derbyn Gofal yn cyfarfod ac yn rhoi sylwadau ac roedd person ifanc wedi'i benodi'n ddiweddar i Gonsortiwm Comisiynu Plant Cymru .

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi adroddiad Arolygaeth Gofal Cymru ar Wasanaeth Gofal Cymdeithasol i Blant Pen-y-bont ar Ogwr a'u sylwadau ar y Cynllun Gweithredu cysylltiedig.

.

## 176. CYMERADWYO DATGANIADAU O FWRIAD GWASANAETHAU PRESWYL

Cyflwynodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau Rheoleiddio Plant adroddiad ar y datganiadau o fwriad diwygiedig ar gyfer gwasanaethau preswyl presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Esboniodd ei bod yn ofynnol, o dan gyfansoddiad y Cyngor, i gyflwyno'r rhain i'r Pwyllgor dros faterion Rhieni Corfforaethol.

Esboniodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau Rheoleiddo Plant fod gan y Cyngor bedair uned preswyl i blant ar hyn o bryd a bod y rhain yn darparu gwasanaethau i 47 o blant a phobl ifanc rhwng 0 a 19 oed. Diben Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2018 oedd adeiladu ar lwyddiant rheoleiddio yng Nghymru ac adlewyrchu'r newidiadau ym maes gofal cymdeithasol. Byddai rheoliadau'n symud y tu hwnt i faterion cydymffurfio ac yn canolbwyntio mwy ar ansawdd gwasanaethau a'r effaith roeddent yn ei chael ar bobl. Esboniodd y byddai pob Awdurdod Lleol yn cael tystysgrif cofrestru ac y bydd pob Datganiad o Fwriad yn cael ei gyflwyno mewn ffordd fwy unffurf.

Esboniodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau Rheoleiddo Plant nad oedd dim newidiadau yn y datganiad o fwriad ar gyfer Newbridge House a Harwood House. Yn achos Sunnybank, roedd newid yn y gwasanaeth a oedd yn cynnig lleoliadau tymor canolig/hir i blant a phobl ifanc rhwng 8 ac 17 oed ac, yn achos Bakers Way, roedd newidiadau yn oriau gweithredu'r gwasanaeth yn dilyn proses o ad-drefnu a newidiadau yn y strwythur staffio. Byddai datganid o fwriad newydd yn cael ei baratoi ym mis Medi 2018 ar gyfer y gwasanaeth preswyl newydd yn Newbridge House gan mai hwn fydd yr uned frys a'r uned asesu erbyn mis Hydref 2018.

Gofynnodd un aelod am ragor o wybodaeth am newid yr oriau gweithredu yn Bakers Way. Esboniodd Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau Plant fod plant a phobl ifanc yn aros yno'r un mor aml ond bod yr oriau wedi'u gostwng gan nad oedd yr uned yn llawn. Roedd y gyfradd llenwi wedi codi i 92% ac roedd hyn yn dilyn proses ymgynghori eang. Roedd yr adborth a gafwyd yn dilyn y newidiadau wedi bod ffafriol iawn. Roedd Bakers Way yn cael ei adnewyddu ar hyn o bryd ac roedd trafodaethau'n cael eu cynnal â phob teulu i sicrhau eu bod yn gwybod am hynt y datblygiadau.

PENDERFYNWYD: Bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad ac yn cymeradwyo'r datganiad o fwriad ar gyfer pob un o'r unedau preswyl.

177. ADOLYGIAD O'R BROSES O WNEUD PENDERFYNIADAU YNGHYLCH PLANT SY'N DERBYN GOFAL

Cyflwynodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant adroddiad y Sefydliad Gofal Cyhoeddus ar yr adolygiad a'r cynllun gweithredu cysylltiedig. Esboniodd bod y gwaith o oruchwylio a rheoli plant sy'n derbyn gofal yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor ac roedd wedi ymrwymo i wella ymhellach y gwasanaethau ymyrraeth gynnar a'r gwasanaethau statudol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Ym mis Tachwedd 2017, cynhaliodd y Sefydliad Gofal Cyhoeddus adolygiad o'r llwybrau a oedd ar gael i blant a phobl ifanc yr oedd angen gofal arnynt dros y flwyddyn ddiwethaf. Y diben oedd adolygu penderfyniadau, dadansoddi arfer yn eu gofal, archwilio ymyriadau a sut y gellid gwneud penderfyniadau mwy effeithiol. Cyfeiriodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant at argymhellion yr adroddiad ac at y cynllun gweithredu sydd ynghlwm yn Atodiad 2. Cafodd y cynllun gweithredu ei ddatblygu er mwyn rhoi'r argymhellion ar waith ac roedd yn cael ei fonitro gan y gwasanaeth Cymorth Cynnar a'r Bwrdd Diogelu a oedd cael ei gyd-gadeirio gan Gyfarwyddwyr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, ac Addysg a Chymorth i Deuluoedd.

Cyfeiriodd un aelod at yr argymhelliad i sicrhau mwy o gysondeb yn asesiadau'r gwasanaethau cymdeithasol gan ofyn beth oedd yn digwydd yn y cyswllt hwn. Esboniodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant fod gweithwyr cymdeithasol wedi cael hyfforddiant gorfodol a bod y canllawiau asesu wedi'u diwygio. Byddai'r system newydd yn cael ei lansio dros yr wythnosau nesaf a'i hadolygu ar ôl 12 mis.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant at gynllun peilot yng Nghasnewydd i deuluoedd mewn amgylchiadau anodd. Roedd y gwasanaeth hwn i'w weld yn llwyddo ac roedd menter debyg yn cael ei datblygu yng Nghwm Taf gyda Barnardos. Mae nifer o deuluoedd wedi'u cyfeirio at y gwasanaeth a bydd adroddiad ar lwyddiant y cynllun yn cael ei gynhyrchu maes o law.

PENDERFYNWYD: Nododd y Pwyllgor adroddiad y Sefydliad Gofal Cyhoeddus a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig.

178. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 11:10